Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion sy'n cael Triniaeth Laser Cyclodiode

## Yr Uned Llygaid

---

**Beth yw Triniaeth Laser Cyclodiode?**

Defnyddir triniaeth laser cyclodiode i drin glawcoma sy'n anodd ei reoli. Defnyddir y laser ar ran ciliaraidd y llygad sydd yna'n lleihau'r hylif a gynhyrchir (aqueous humour) ac mae'n gallu cadw'r pwysedd yn isel.

**Pam wyf fi'n cael y driniaeth hon?**

Bydd hyn eisoes wedi cael ei esbonio i chi yn y clinig. Mae triniaethau ar gyfer glawcoma yn gweithio i leihau'r pwysau intra ocular. Mae'r hylif (aqueous humour) yn cael ei gynhyrchu y tu mewn i'r llygad gan haen o gelloedd ar y cyhyr (y corff ciliaraidd) sy'n symud y lens yn y llygad. Yn bennaf, mae'r hylif yn draenio trwy strwythur a elwir yn 'trabecular meshwork'. Mae pwysau arferol y llygad rhywbeth rhwng 12-21 mmHg.
Os, am ba bynnag reswm, y rhwystrir llif yr hylif (aqueous humour) gall y pwysau godi a gall achosi glawcoma.

Gellir trin glawcoma yn feddygol (diferion), gyda llawdriniaeth neu gyda laser. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r driniaeth yn dechrau gyda diferion llygaid. Os nad yw hyn yn effeithiol, ystyrir un ai laser neu lawdriniaeth.

Mae laser cyclodiode yn driniaeth fwy effeithiol na llawdriniaeth, gan gymryd tua 10 munud.

1. Mae'r driniaeth yn arbennig o ddefnyddiol i gleifion gyda glawcoma poenus mewn llygad nad oes modd gweld trwyddi, sydd yn flaenorol wedi gorfod cael sawl math o ddiferion llygaid i reoli'r boen a'r pwysau yn y llygad.

2. Gyda'r driniaeth laser, byddwch yn rhydd o boen ac yn gallu defnyddio llai o'r diferion llygaid neu roi'r gorau i'w defnyddio.

**Sut mae'r driniaeth yn cael ei pherfformio?**

Fel arfer, mae'r driniaeth yn cael ei pherfformio fel achos dydd mewn theatr llawdriniaeth gydag anesthetig lleol. Cyn y driniaeth, fe gewch ddiferion a phigiad i fferru'r llygad. Mae'n rhaid i chi orwedd yn weddol lonydd yn ystod y driniaeth.

Gall cymhlethdodau yn sgil yr anesthetig lleol gynnwys cleisio ac yn anaml iawn, nodwydd y pigiad yn rhwygo'r llygad.

Rhoddir stiliwr laser ar wyneb y llygad ac mae'n gyrru curiadau o ynni laser trwy wal y llygad i gyrraedd wyneb y corff ciliary gan achosi llosgiadau bach.

Mae'n bosib y bydd angen ailadrodd y driniaeth laser.

**A oes yna unrhyw broblemau posibl?**

Oes, gall problemau ddigwydd fel gydag unrhyw driniaeth.  Dyma'r problemau allai ddigwydd o ganlyniad i'r driniaeth:-

- Enyniad
- Gall beidio gweithio a gall y pwysau barhau i fod yn uchel
- Gall weithio'n rhy dda a bydd y pwysau yn parhau yn isel
- Colli golwg
- Poen parhaus
- Cynnydd yn nhywyllni'r lens (Cataract)

**Yn dilyn y driniaeth laser**

- Bydd yn rhaid i chi ddefnyddio diferion steroid am nifer o wythnosau yn dilyn y driniaeth.

- Bydd yn rhaid i chi barhau i gymryd eich meddyginiaeth glawcoma yn ôl cyfarwyddyd eich arbenigwr llygaid.

**Rhifau ffôn mewn argyfwng**

Os ydych chi'n cael anhawster gyda'ch llygad,
cysylltwch â ni ar unwaith.

Yn ystod oriau swyddfa arferol dydd Llun – dydd Gwener 9.00am – 5.00pm ffoniwch:-

Clinig Llygaid – 01633 – 238413

Neu gyda'r nos neu ar benwythnosau

Y Ward Llygaid – 01633 - 238414

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**